

Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Awst 2021

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden: 2021/17 - Cau Parciau ac Ardaloedd Chwarae**

Gofynnodd y Cynghorydd M Evans:

Faint o feysydd ac ardaloedd chwarae sydd ar gau ledled y ddinas ar hyn o bryd?

A yw'r Aelod Cabinet yn cytuno â mi ei bod yn hanfodol bwysig eu hailagor cyn gynted â phosibl, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf?

A allwch hefyd nodi'r amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i wneud gwaith atgyweirio?

Ymatebodd y Cynghorydd Debbie Harvey:

Mae'r Cyngor yn gweithredu 54 o ardaloedd chwarae ledled y ddinas ac ar hyn o bryd mae 5 ar gau oherwydd fandaliaeth neu ddifrod.

Bydd amseroedd atgyweirio'n amrywio yn dibynnu ar fath y gwaith atgyweirio a ph'un ai oes rhaid cynhyrchu rhan benodol, a all gymryd hyd at 12 wythnos.

Gwneir atgyweiriadau llai fel disodli cadwyni siglo, llwyni, gefynnau, seddi ac ati ar sail blaenoriaeth ac fel arfer cânt eu cwblhau o fewn tair wythnos.

Rydym bob amser yn ceisio cadw'r ardaloedd hyn ar gau am y cyfnodau byrraf posibl, ond rhaid i ni sicrhau bod yr holl gyfleusterau chwarae yn ddiogel i'w hagog.